**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Ymchwiliad Craffu – Yr Amgylchedd Naturiol

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 24 Ebrill 2018 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P K Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| L S Gibbard | Y V Jardine | I E Mann |
| S Pritchard | | |

**Mynychwyr eraill**

| | |
|---|---|
| Mary Sherwood | Cenedlaethau'r Dyfodol |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Bethan Hopkins | Swyddog Craffu |
| Deb Hill | Arweinydd Tîm Cadwraeth Natur |
| Paul Mellor | Rheolwr Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd Naturiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): P R Hood-Williams a/ac J W Jones

---

1 **Ymddiheuriadau**

2 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

- Gofynnwyd i'r holl gynghorwyr sy'n aelodau o sefydliad sydd â budd yn yr amgylchedd naturiol lenwi ffurflen gysylltiadau ar ôl cael cyngor cyfreithiol. Nodwyd y byddai'r rhain yn gysylltiadau personol ar y mwyaf.

3 **Sesiwn Friffio ar Bolisïau Gwasanaethau**

- Mae gan y Tîm Cadwraeth Natur dreuliau sydd dros dwywaith swm ei gyllideb flynyddol.
- Mae'r adran yn dibynnu'n drwm ar grantiau i dalu'r gwahaniaeth ac i ariannu staff a phrosiectau. Mae cyflwyno cais am grantiau'n broses sy'n cymryd llawer o amser, ac mae monitro a gweinyddu'r grantiau hefyd yn cymryd amser ac yn golygu nad yw staff yn cyflawni eu prif rôl, gan adael y tîm mewn sefyllfa ddiamddiffyn iawn.

- Mae cyfyngiadau amser yn golygu nad yw'r gwaith da a wneir gan staff ar hyn o bryd yn cael ei hyrwyddo na'i hysbysebu, felly nid oes llawer o ymwybyddiaeth o'r camau cadarnhaol a gyflawnwyd.
- Mae yna oblygiadau cyfreithiol posib o ganlyniad i fethu cydymffurfio â dyletswyddau statudol. Mae ymyriad gan Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r heddlu yn bosib ynghyd ag adolygiad barnwrol neu dorri rheolau Ewropeaidd. Efallai bydd goblygiadau ariannol a gwleidyddol sylweddol hefyd.
- Mae'r tîm yn annog ac yn hyrwyddo gwirfoddoli sy'n darparu help ychwanegol gyda gwaith rheoli safle, ond mae angen amser staff hefyd er mwyn goruchwylio a chefnogi cyfranogaeth barhaus. Fodd bynnag, ni all gwirfoddolwyr gymryd lle'r cyngor arbenigol/proffesiynol a'r mewnbwn sy'n angenrheidiol yn ddyddiol, e.e. darparu ymatebion i ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio, arweiniad polisi etc.
- Bydd datblygu Canol y Ddinas yn gyfle mawr i greu Dinas Werdd ac ni ddylwn golli'r cyfle hwn.
- Dyma gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i fod yn flaenllaw o ran datblygu isadeiledd trefol gwyrdd, i greu 'Dinas Llawn Natur', i ragori, ac i dreialu gwaith Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) yn drefol.
- Cafwyd trafodaeth ynghylch aelodau ward yn cyfrannu peth o'u harian at y gweithgareddau hyn a chael gweithgareddau yn eu wardiau o ganlyniad. Tîm Cadwraeth Natur i baratoi a chyflwyno cynnig.

4 **Deddf yr Amgylchedd a Throsolwg o Fioamrywiaeth Abertawe**

- Mae dyletswydd arnom fel corff cyhoeddus i gydymffurfio ag adran 6 Deddf yr Amgylchedd.
- Byddai gwneud adran 6 Deddf yr Amgylchedd yn rhan annatod o broses cynllunio busnes a pholisi Cyngor Abertawe yn arfer gorau.
- Mae'n well i lefel uwch gyflwyno'r rhwymedigaeth hon fel nad oes modd ei cholli a fel bod gan bob adran amcanion bioamrywiaeth yn rhan o'u Cynlluniau Gwasanaeth.
- Mae gan Abertawe fioamrywiaeth hynod amrywiol ac rydym yn lwcus iawn i gael hwn. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am Adnodd Bioamrywiaeth Abertawe (Cynefinoedd a Rhywogaethau Blaenoriaeth) yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Abertawe.
- Mae oddeutu 50% o arwynebedd y sir o werth ecolegol sylweddol, a gwarchodir 22% o'r arwynebedd gan ddynodiadau Rhyngwladol a/neu Genedlaethol, e.e. ACA, SoDdGA, AGA, GNG ac AoHNE)
- Mae cysylltedd rhwng mannau gwyrdd yn bwysig iawn gan ei fod yn helpu i gefnogi cadernid ecolegol.
- Mae llawer o dir yn Abertawe'n eiddo i Gyngor Abertawe ac yn cynnig cyfle mawr, ond mae hefyd yn gyfrifoldeb mawr i gynnal a chadw a rheoli safleoedd o bwys ecolegol. Ar adegau ystyrir bioamrywiaeth fel rhwystr yn hytrach nag ased.
- Mae'n hanfodol ein bod yn deall faint rydym yn dibynnu ar ecosystemau ar gyfer darpariaethau, rheoliadau a diwylliant.
- Mae'n rhaid cydbwyso'r gwerth ecolegol yn erbyn gwerth unrhyw werthiant/datblygiad yn ariannol.
- Mae'r gallu i fapio safleoedd yn gywir yn golygu bod gwybodaeth ar gael i bobl ymlaen llaw (e.e. Gwasanaethau Cynllunio).

- Ardaloedd sy'n cefnogi cynefinoedd a rhywogaethau o bwys pennaf ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth yng Nghymru yw SBCN (Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur) (fel a restrwyd o dan adran 7 Deddf Amgylchedd Cymru). Gwarchodir safle sy'n bodloni meini prawf SBNC (fel a amlinellwyd yn Arweiniad Cymru Gyfan) i raddau o dan Ddeddf Amgylchedd Cymru, p'un a yw wedi'i nodi ar fap cyfyngiadau'r CDLl neu beidio.
- Mae colli unrhyw safleoedd SBNC cysylltiol yn niweidio cysylltedd safleoedd dynodedig eraill ac felly'n lleihau cadernid ecosystemau.
- Gallai Abertawe fonitro data bioamrywiaeth yn well ond mae adnoddau'n brin iawn.
- Mae yna gyfle unigryw yma i ddylanwadu ar bolisïau yn dilyn BREXIT ac i ail-ddychmygu sut gallai rhai safleoedd/gweithgareddau fod yn fwy buddiol i fioamrywiaeth, e.e. tir comin.
- Mae nifer o gyfleoedd o'n blaenau yn ystod y cyfnod trawsnewid hwn.
- Mae diffyg rheoli safleoedd yn golygu eu bod yn dirywio ac nid ydym yn eu gwarchod rhag problemau, sydd wedyn yn fwy costus i ni yn y pen draw ac yn y tymor hir.
- Mae angen i weithio gyda natur fod yn un o brif amcanion y Cynllun Corfforaethol ac, yn y modd hwn, bydd yn cael mwy o ddylanwad ac yn annog mwy o bobl i ystyried y rhwymedigaeth o ddifrif.

5 **Trafodaeth**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00pm

**Cadeirydd**